**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cysoni ffioedd am ofal i oedolion yng Ngwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Dilwyn Morgan |
| **Swyddog perthnasol:** | Alun Gwilym Williams / Mari Wynne Jones |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11/11/2025 |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.1 Mabwysiadu Polisi Codi Tâl am ofal diwygiedig yn unol ag argymhellion yr adroddiad hwn.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD:

2.1 Ar y 15/10/24, cyflwynwyd adroddiad Llechen Lân i'r Cabinet, ac amlygwyd yr heriau ariannol a demograffeg sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd dros y blynyddoedd nesaf. Os am sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol, mae'n rhaid edrych ar faint o ofal sy'n cael ei ddarparu ac ym mha ffordd. Yn ychwanegol i hyn, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd mae angen i'r Cyngor godi ffi am wasanaethau lle mae'r hawl ganddo i wneud hynny.

## 3. CYFLWYNIAD

### 3.1 Cefndir

3.1.1 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), mae'r Cyngor eisoes yn codi ffi am y mwyafrif o wasanaethau gofal a/neu gefnogaeth drwy ddilyn y polisi codi tâl cyfredol. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y gwasanaethau ac er mwyn cynnal gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol, mae'r adroddiad yn argymell diweddaru'r polisi. Bydd y newidiadau sy'n cael eu hargymell yn golygu y bydd rhai unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaethau am ddim yn hanesyddol yn talu ffi i'r dyfodol, ond bydd yr egwyddorion canlynol yn parhau i warchod trigolion fwyaf bregus Gwynedd:

- Mae gan bawb sy'n derbyn gwasanaethau gofal a/neu gefnogaeth hawl i asesiad ariannol er mwyn penderfynu os oes ganddynt y modd i gyfrannu at eu gofal/cefnogaeth neu beidio.
- Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau fod gan berson sy'n talu am ofal isafswm incwm i'w galluogi i dalu rhent, biliau, bwyd a chostau byw eraill cyn cychwyn talu am ofal. Mae'r isafswm incwm yma yn amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa'r unigolyn, budd-daliadau ayyb.
- Ni fydd unrhyw un yn talu mwy na £100 yr wythnos am wasanaeth gofal di-breswyl (unrhyw ofal neu gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu tu allan i gartref preswyl neu nyrsio cofrestredig).
- Mae Tîm Incwm a Lles y Cyngor yn cefnogi bobl drwy'r broses o dderbyn asesiad ariannol, ac hefyd yn cynnig cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys iddyn nhw os yn gorfod talu am ofal a/neu gefnogaeth.

3.1.2 Mae'r Polisi Codi Tâl am Ofal presennol mewn lle yng Ngwynedd ers 2017, gweler Atodiad 3. Lluniwyd y polisi yn dilyn pasio'r Ddeddf er mwyn:

- cadarnhau bwriad Cyngor Gwynedd i godi tâl am wasanaethau gofal preswyl/nyrsio a rhai gwasanaethau dibreswyl
- cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymgorffori gofynion rheoliadau a chod ymarfer y Ddeddf yn y polisi

**3.2 Cod ymarfer y Ddeddf**

3.2.1 Mae gan gynghorau yr hawl i godi ffi am wasanaethau gofal a chymorth, ond mae'n rhaid gweithredu yn unol â Rhan 4 a 5 o'r cod ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol):

*"Oni bai am ofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r cod hwn, pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei ddisgresiwn i godi ffi am ofal a chymorth y mae'n ei ddarparu neu ei drefnu, mater i'r awdurdod hwnnw yw llunio ei bolisi a'i gynnwys ynghylch codi ffioedd o'r fath. Yn unol â gofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r cod hwn, mae angen i awdurdodau benderfynu pa ofal a chymorth, os o gwbl, y byddant yn codi ffi amdano, natur a lefel unrhyw ffioedd a godir a sut y caiff y ffioedd eu cymhwyso at unigolion penodol sy'n derbyn gofal a chymorth."*

3.2.2 Nid yw'r addasiadau sy'n cael eu hargymell i'r polisi yn effeithio ar ffioedd am wasanaethau preswyl a ddarperir mewn cartrefi preswyl/nyrsio, dim ond gwasanaethau di-breswyl.

3.2.3 Mae rhai sefyllfaoedd (isod), lle mae'r Ddeddf yn nodi'n glir na fydd yr awdurdod lleol yn cael codi am wasanaethau gofal a chymorth, a bydd polisi Gwynedd yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau yma:

- gofal a chymorth a ddarperir i'r rhai sydd â Chlefyd Creutzfeldt-Jacob;
- gwasanaethau/cymorth ôl-ofal a ddarperir o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- asesiadau o anghenion, cynllunio gofal, llunio cynlluniau gofal ayyb.
- cludiant i wasanaeth dydd lle y darperir cludiant fel rhan o'r broses o ddiwallu anghenion person;
- eiriolaeth broffesiynol annibynnol pan fydd awdurdod lleol wedi trefnu i ddarparu hyn yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 y Ddeddf.
- gofal a chymorth a ddarperir fel ail-alluogi a drefnwyd o dan Ran 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) neu Ran 4 (Diwallu Anghenion) y Ddeddf, neu ail-alluogi a drefnir fel taliadau uniongyrchol o dan adrannau 50 neu 52 (taliadau uniongyrchol) y Ddeddf, i berson am hyd at 6 wythnos i'w alluogi i gynnal neu adennill ei allu i fyw'n annibynnol gartref.

3.2.4 Yn ogystal, mae rhai gwasanaethau lle mae gan Gyngor Gwynedd y disgresiwn i godi ffi ar eu cyfer ond sydd wedi bod yn cael eu darparu am ddim yn hanesyddol:

- Gofal Dydd a ddarperir mewn canolfannau/lleoliadau penodol y tu allan i'r cartref (er mae unigolion yn cyfrannu at eu darpariaeth bwyd).
- Gwasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl yn y gymuned (ag eithrio gwasanaethau o dan rhan 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1993)
- Gwasanaethau Cefnogol Dementia yn y gymuned.

3.2.5 Un rhan o'r argymhelliad ydi i roi'r hawl i'r Adran Oedolion godi ffi am y gwasanaethau yma, yn ddibynnol ar asesiad ariannol.

**3.3 Gofalwyr di-dâl**

3.3.1 Ail ran yr argymhelliad yw i addasu'r geiriad a gwneud y cymal ar ofalwyr di-dâl o fewn y polisi codi tâl yn fwy eglur.

3.3.2 Diffinir gofalwr di-dâl fel:

*“rhywun sy’n gofalu neu sy’n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau, neu ofalu am blentyn anabl” (Carers Trust, 2024)*

3.3.3 O ran gofalwyr di-dâl, mae’r Ddeddf yn nodi:

*“Pan fydd awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofalwr sy'n oedolyn drwy drefnu neu roi cymorth yn uniongyrchol iddo, neu'n darparu taliadau uniongyrchol i'w alluogi i gael y cymorth hwn, mae ganddo ddisgresiwn i godi ffi ar y gofalwr sy'n oedolyn am y rhain”.*

3.3.4 Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw’r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dâl ac argymhellir fod y polisi yma’n parhau. Mae nifer o resymau, ond yn bennaf gwyddom fod gofalwyr di-dâl yn rhoi gofal a chefnogaeth gwerthfawr i unigolion a bod hyn yn tynnu pwysau sylweddol oddi ar wasanaethau gofal a chymorth. Mae angen i’r Cyngor barhau i gefnogi gofalwyr di-dâl i gyflawni’r rôl werthfawr yma. Dyma’r egwyddorion fydd y Cyngor yn eu dilyn wrth benderfynu os fydd ffi yn cael ei godi am wasanaeth :

1. Ni fydd y cyngor yn codi tâl am wasanaethau uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl (sef gwasanaeth sydd yn enw’r gofalydd lle nad oes unrhyw elfen o ofal/cyfrifoldeb am y person sydd angen gofal).
2. Dylid codi tâl am unrhyw wasanaeth lle mae elfen o ofal i’r unigolyn sy’n derbyn cymorth e.e. gofal personol, gwasanaeth cadw cwmni neu oruchwyliaeth. Byddai’r gwasanaeth yma yn rhan o gynllun gofal a chefnogaeth yr unigolyn sydd angen gofal a nhw fyddai yn gyfrifol am y ffi, yn hytrach na’r gofalwr di-dâl. Wrth gwrs, bydd faint fydd unigolyn yn ei gyfrannu yn ddibynnol ar asesiad ariannol.
3. Byddai’r eithriadau arferol sydd wedi eu dyfynnu o’r cod ymarfer yn rhan 3.2 uchod yn berthnasol.

### 3.4 Cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant

3.4.1 Yn y gwasanaeth Anableddau Dysgu yn benodol, ond o fewn gwasanaethau eraill hefyd, mae pwyslais yn cael ei roi ar drio cefnogi unigolion mewn i gyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddiant lle fo’r unigolyn yn awyddus i wneud hyn. Mae hyn yn aml yn lle cefnogaeth mewn canolfan ddydd traddodiadol. Mae hyn eto yn tynnu pwysau oddi ar wasanaethau gofal a chymorth traddodiadol, yn ogystal a chyfrannu at yr economi leol a’r holl fuddion eraill sydd yn dod law yn llaw. Argymhellir peidio codi ffi am y gwasanaeth/gefnogaeth i gael bobl fewn i gyflogaeth/hyfforddiant.

## 4. <u>RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD</u>

### 4.1 Effaith ariannol

4.1.1 Yn y sefyllfa ariannol bresennol, mae’n anorfod ystyried codi ffioedd am wasanaethau lle mae disgresiwn i'r Cyngor wneud. Mae pwysau ar y gyllideb sydd ar gael i gynnal gwasanaethau gofal, ond mae'r angen am ofal yn cynyddu. Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal wrth i boblogaeth Gwynedd heneiddio a byw’n hirach gyda gwaeledd a/neu anableddau (Comisiwn Bevan, 2024).

4.1.2 Mae adroddiad Llechen Lân wedi amlygu’r angen i fynd i'r afael â’r her sy’n ein wynebu drwy newid mewn ymarfer a symud oddi wrth gwasanaethau traddodiadol tuag at wasanaethau sy’n canolbwyntio ar gryfderau, ond mae addasu’r polisi codi tâl i uchafu cyfraniadau at ein

gwasanaethau yn ystyriaeth bwysig law yn llaw. Mae’r newidiadau sy’n cael eu cynnig yn cael eu gweithredu’n llwyddiannus gan rai cynghorau yn barod, er enghraifft mae 4 allan o’r 6 Cyngor yn y Gogledd eisoes yn codi tâl am wasanaethau dydd.

4.1.3 Mae’n anodd rhoi ffigwr manwl ar faint o incwm fyddai’r newidiadau yn ei gynhyrchu gan fod pawb yn gymwys am asesiad ariannol, ond disgwylir y byddai’r ffigwr o gwmpas £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol. Byddai gan bawb sy’n derbyn gofal a chymorth yr hawl i asesiad o’u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu, ac mae uchafswm o £100 yr wythnos wedi’i osod gan Lywodraeth Cymru.

### 4.2 Cysondeb

4.2.1 Mae’r cod ymarfer hefyd yn nodi’r egwyddorion canlynol a ddylai fod yn greiddiol i bolisïau codi tâl am ofal:

- bod yn gyson, er mwyn dileu amrywiadau yn y ffordd y caiff pobl eu hasesu'n ariannol ac y codir ffioedd arnynt;
- cymhwyso ffioedd yn gydradd fel y bydd y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth tebyg yn cael eu trin yn yr un modd a lleihau anghysondebau rhwng codi am fathau gwahanol o ofal a chymorth i'r eithaf;
- annog a galluogi'r rhai sy'n dymuno aros mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant neu ymgymryd â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu gynllunio ar gyfer costau diwallu eu hanghenion yn y dyfodol, i wneud hynny;
- bod yn gynaliadwy i awdurdodau lleol yn yr hirdymor.

4.2.2 Bydd y newidiadau sy’n cael eu hargymell yn galluogi codi’n gyson am wasanaethau gofal a chymorth, lle bynnag ac i bwy bynnag y mae’n cael ei roi. Bydd y newidiadau hefyd yn annog a galluogi unigolion, lle bo hynny’n opsiwn, i gael mynediad at hyfforddiant, addysg, cyflogaeth ayyb yn hytrach na hyrwyddo’r model traddodiadol o wasanaeth gofal/cefnogaeth ar un safle.

## 5. <u>UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD</u>

### 5.1 Ymgynghoriad cyhoeddus

5.1.1 Mae cod ymarfer y ddeddf yn nodi;

*“Pan fydd awdurdodau yn llunio polisïau newydd, neu'n diwygio polisïau sy'n bodoli eisoes yn sylweddol, rhaid iddynt ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt yn lleol ac ystyried eu barn cyn penderfynu ar ba bolisi, neu ba ddiwygiadau i'w polisi, y dylent ei roi neu eu rhoi ar waith”.*

5.1.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng y 14/11/2024 a’r 23/12/2024. Derbyniwyd 73 ymateb ac mae canlyniadau’r ymgynghoriad i'w gweld yn llawn yn atodiad 1. I grynhoi:

- Yn gyffredinol, nid oedd tua hanner yr ymatebwyr yn hyderus fod ganddynt ddealltwriaeth o’r polisi a pha wasanaethau sydd yn denu ffi ar hyn o bryd, yn enwedig o bersbectif gofalwyr di-dâl.
- Amlygwyd barn cryf y dylai gwasanaethau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl barhau i fod am ddim, ond bod y polisi yn aneglur fel ag y mae.
- 71% yn teimlo na ddylid codi ffi am wasanaethau cefnogol iechyd meddwl ac ymhlith y sylwadau roedd rhai wedi nodi y byddai gwneud hynny yn rhoi fwy o straen ar unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- 7 allan o 66 o ymatebion wedi nodi’n benodol y dylai gwasanaethau dydd barhau i fod am ddim.

**5.2 Deddf Cydraddoldeb 2010**

5.2.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 2. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Gan fod ymdrech rhagweithiol i sicrhau fod bob unigolyn yn cael asesiad ariannol fel nad oes unrhyw un sy'n methu a fforddio talu yn gorfod gwneud hynny, nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw effaith negyddol ar unigolion gyda nodweddion cydraddoldeb. Yn hytrach, mae'n adnabod fod cysoni'r ffioedd yn hyrwyddo cyfle cyfartal o safbwynt mynediad at gefnogaeth a gofal ar draws.

**5.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5.3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r polisi wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol a'r 5 ffordd o weithio.

**6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1 Argymhellir y dylid diweddaru polisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a gweithredu'r polisi newydd ar unwaith (Atodiad 4). Argymhellir gweithio gyda unigolion sydd yn cael eu heffeithio dros y misoedd nesaf fel bod pawb wedi cael cefnogaeth ac asesiad ariannol erbyn y flwyddyn ariannol nesaf sy'n cychwyn ar y 1/4/26. Dyma grynodeb o'r diweddariadau:

- Parhau i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl am ddim, er fod y disgresiwn gan y Cyngor i godi ffi.
- Egluro yn glir pa wasanaethau i ofalwyr fydd am ddim, a pha wasanaethau y bydd ffi amdanynt.
- Rhoi'r hawl o fewn y polisi i'r Adran Oedolion godi ffi am wasanaethau dydd 'traddodiadol' ar safle penodol, sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol. Bydd y ffioedd yma yn cael eu pennu yn flynyddol fel yr holl ffioedd eraill. Er gwybodaeth, byddai cost cefnogaeth 1:1 mewn gwasanaeth dydd yn £24.21 yr awr ar gyfer 2025/26, a cost cefnogaeth mewn grŵp yn £10.90 yr awr. Disgwylir codi ffi hyd at uchafswm o £100 yr wythnos am y gwasanaeth yma, a hynny ar sail asesiad ariannol o sefyllfa pob unigolyn. Byddwn yn sicrhau cefnogaeth i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnydd mwyaf er mwyn gwarchod eu mynediad at y gwasanaethau sydd o fudd iddynt.
- Rhoi'r hawl o fewn y polisi i'r Adran Oedolion godi ffi hyd at yr uchafswm o £100 yr wythnos am pob gwasanaeth cefnogol, gan gynnwys gwasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl (ag eithrio gwasanaethau o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl). Bydd hyn yn cysoni'r polisi ar draws yr holl wasanaethau.
- Peidio codi ffi am wasanaethau cefnogi unigolion fewn i gyflogaeth a/neu hyfforddiant.

6.2 Pwysleisir, os yw'r penderfyniad yn cael ei wneud i addasu'r polisi codi tâl am ofal, bydd yr egwyddorion canlynol yn parhau i warchod unigolion bregus Gwynedd :

- Bydd pawb sydd yn derbyn gwasanaethau gofal a/neu gefnogaeth yn gymwys am asesiad ariannol. Bydd yr asesiad yma yn ystyried asedau a lefel incwm yr unigolyn, ac yn penderfynu ar gyfraniad sydd yn fforddiadwy i'r unigolyn. Mae gan unigolion yr hawl i wrthod yr asesiad ariannol, ond byddant yn talu am gost llawn eu gofal, hyd at yr uchafswm o £100 yr wythnos.
- Os ydi’r asesiad yn dangos fod unigolyn yn gorfod cyfrannu, mi fydd cefnogaeth ar gael gan y Cyngor i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys i'w derbyn.
- Os yw’r asesiad ariannol yn dangos nad oes gan yr unigolyn y modd ariannol o gyfrannu at y gofal, mi fyddant yn derbyn y gwasanaeth am ddim. Mi fydd hyn yn cael ei ail asesu os yw sefyllfa yr unigolyn yn newid.
- Mae uchafswm cyfraniad yn cael ei osod gan Llywodraeth Cymru o £100 yr wythnos. Ni fydd unrhyw un yn cyfrannu mwy na £100 yr wythnos am eu pecyn gofal di-breswyl.

6.3 Yn ymarferol, fe ddylai’r egwyddorion uchod olygu na fydd unrhyw un yn cyfrannu mwy nag y gallan nhw ei fforddio am ofal a/neu gefnogaeth. Os oes unrhyw un yn anghytuno gyda’r asesiad ariannol, mae modd apelio, ac mae’r wybodaeth am sut i wneud hyn yn cael ei wneud yn glir i unigolion wrth iddyn nhw fynd drwy’r broses o gael asesiad ariannol.

## 7. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL.

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn croesawu’r diweddariad i’r Polisi hwn sy’n cysoni ffioedd am ofal cymdeithasol i oedolion yng Ngwynedd.  Fel mae’r adroddiad yn nodi, mae sefyllfa ariannol y gwasanaethau sy’n darparu gofal i oedolion yn wynebu pwysau parhaus, fel sydd wedi ei amlygu gyda’r gwaith Llechen Lân.  Mae diweddaru’r Polisi Codi Tâl yn rhan allweddol o llywodraethiant y gwasanaeth, a bydd ei gynnwys yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen gyda’r drefn gyllidebu.

### 7.2 Swyddog Monitro

Mae’r adroddiad yn seiliedig ar broses ymgynghori ac ystyriaeth o’r gofynion ynglŷn a ffioedd am wasanaethau gofal. Darparwyd asesiad ardrawiad ynghyd a chrynodeb o’r cyd destun statudol cyffredinol. Nid oes gennyf sylwadau pellach i gynnig o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Adroddiad yn amlinellu ymatebion yr ymgynghoriad

Atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Atodiad 3 - Polisi Codi Tâl am Ofal presennol

Atodiad 4 – Polisi Codi Tâl am Ofal diwygiedig